



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref:
Ein cyf/Our Ref:910182B qA1164787 & qA1175808
Dyddiad/Date: 01 Hydref 2014

Annwyl Syr / Madam,

DEDD PRIFFYRDD 1980

GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A'R GEFNFFORDD O FAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060) A'R GEFNFFORDD O GAERDYDD I LANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) 1999, GORCHYMYN (DIWYGIO) (GILWERN I FRYNMAWR) 201-

GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A'R GEFNFFORDD O FAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060) A'R GEFNFFORDD O GAERDYDD I LANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYNMAWR) (FFYRDD YMYL) 201-

GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A'R GEFNFFORDD O FAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060) A'R GEFNFFORDD O GAERDYDD I LANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (GILWERN I FRYNMAWR) 201-

PENDERFYNIAD ASESAD O EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DAN RAN VA O DDEDD PRIFFYRDD 1980

RHEOLIADAU 61, 62 A 66 RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010:

TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, trosglwyddwyd y swyddogaeth o benderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion a nodwyd uchod ai peidio i Weinidogion Cymru. Mae'r penderfyniad yn dod o dan gyfrifoldeb Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ("y Gweinidog"), un o Weinidogion Cymru.

CYFLWYNIAD

2. Cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus (yr Ymchwiliad) i'r Gorchmynion drafft uchod a'r sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol rhwng 18^{fed} Mawrth 2014 ac 11^{eg} Ebrill 2014. Yr Arolygydd oedd Mr W S C Wadrup BEng (Anrh), CEng, MICE, FCIHT.

PROBLEMAU CYFREDOL

3. Isod ceir crynodeb o'r problemau cyfredol sy'n gysylltiedig â'r adran hon o'r A465 rhwng Gilwern a Brynmawr.
 - a) mae aliniad y ffordd yn is na'r safon mewn manau
 - b) mae gwelededd yn is na'r safon mewn manau
 - c) cerbydau yn symud yn araf wrth ddringo gelltydd drwy Geunant Clydach
 - d) dim lle i oddiweddyd
 - e) clystyrau o ddamweiniau, yn enwedig ar neu wrth ymyl y cyffyrdd presennol
 - f) cymhareb uchel o ran damweiniau angheuol a damweiniau difrifol
 - g) tagfeydd mewn manau ar adegau brig sy'n golygu amseroedd teithio hirach ac nad yw'r amser a gymer siwrnai yn gyson
 - h) llawer o draffig lleol a strategol ar gyffyrdd gyda'r traffig sy'n dod o'r ffyrdd ymyl yn ei chael yn anodd ymuno â'r gefnffordd
 - i) amodau anodd o ran cynnal a chadw priffyrdd a rheoli traffig
 - j) mae'r ffordd bresennol yn torri drwy gymunedau lleol ac yn cyfyngu ar gysylltiadau rhyngddynt
4. Mae'r cynllun arfaethedig tua 8.1km o hyd a bydd yn ymestyn o fan i'r gorllewin o bont Intermediate Road ym Mrynmawr i fan yn union i'r dwyrain o Gyffordd Glanbaiden ger Gilwern. Y bwriad yw uwchraddio'r ffordd 3 lôn bresennol i ffordd ddeuol gyda chyffyrdd aml-lefel a fydd yn galluogi'r traffig i lifo'n rhwydd. Bydd y cynllun yn cynnwys 2.3km o welliannau 'all-lein' gyda'r gweddill yn cael ei wella drwy ledur'r A465 bresennol ar-lein. Yn gyffredinol, byddai croestoriad o'r ffordd yn cynnwys dwy lôn gerbyd 7.3m o led, gyda lleiniau caled 0.5m o led, lleiniau ymyl ffordd 2.3m o led a llain ganol 2.5m o led. Byddai cyfyngiad cyflymder gorfodol o 50mya ar hyd y cynllun i gyd. Nod y cynllun yw lleddfu ar y problemau a nodwyd ym mharagraff 3 a dod â buddion i'r gymunedau lleol ar hyd coridor presennol yr A465.

Y GORCHMYNION

5. Cyhoeddwyd Gorchymyn Diwygio (Llinell) Drafft ar 10^{fed} Hydref 2013 i ddiwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (A465) (Deuli o'r Fenni

i Hirwaun a Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a'r Gefnffordd o fan i'r Dwyrain o Abercynon i fan i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd i Lanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (S.I. 1999/2720) ("Gorchymyn 1999") mewn perthynas â darnau o'r gefnffordd newydd rhwng Gilwern a Brynmawr. Byddai Gorchymyn Diwygio, pe bai un yn cael ei wneud, yn diwygio Gorchymyn 1999 i awdurdodi newid i linell y gefnffordd newydd, rhai ffyrdd ymuno ac ymadael penodol a chyffyrdd a thynnu statws cefnffordd y gefnffordd bresennol rhwng Gilwern a Brynmawr.

6. Cyhoeddwyd Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (SRO) ar 10^{fed} Hydref 2013 a chyhoeddwyd Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) drafft ar 31^{ain} Hydref 2013. Pe gwnaed y gorchymynion hyn, byddent yn awdurdodi cau a darparu a gwella priffyrdd; cau ffyrdd mynediad preifat a darparu ffyrdd mynediad newydd, cau a darparu priffyrdd dros dro; caffael y tir a'r hawliau angenrheidiol i adeiladu'r gefnffordd newydd a'i chynnal a'i chadw yn y dyfodol; gwaith cysylltiedig â'r ffyrdd ymyl; gwaith atodol, rhoi tir yn gyfnewid am gaffael tir comin/mannau agored a rhoi camau ar waith i leddfu ar yr effaith ar yr amgylchedd.

TIR COMIN

7. Ar 31^{ain} Hydref 2013 rhoddodd Gweinidogion Cymru hysbysiad ffurfiol o'u bwriad i gyhoeddi dwy dystysgrif o dan Adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 mewn perthynas â phrynu tir oedd yn rhan o ddau ddarn o dir comin. Pe baent yn cael eu cyhoeddi, byddai'r tystysgrifau yn awdurdodi prynu tir oedd yn rhan o'r tir comin, ac yn tystio na fyddai'r tir a fyddai'n cael ei roi yn gyfnewid yn ddim llai o ran arwynebedd ac y byddai'r un mor fanteisiol i'r unigolion hynny oedd â hawl comin, neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd.

MANNAU AGORED

8. Ar 31^{ain} Hydref 2013 rhoddodd Gweinidogion Cymru hysbysiad ffurfiol o'u bwriad i gyhoeddi tystysgrif o dan Adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a thystysgrif o dan Baragraff 6 o Atodlen 3 i Ddeddf Caffael Tir 1981, mewn perthynas â phrynu tir, a chael hawliau dros dir, a oedd yn rhan o ddau fan claddu nad oedd yn cael eu defnyddio mwyach ac a ddynodwyd yn 'fannau agored'. Pe baent yn cael eu cyhoeddi, byddai'r tystysgrifau yn awdurdodi caffael tir a ddynodwyd yn fan agored oedd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol, ac yn tystio na fyddai'r tir a fyddai'n cael ei roi yn gyfnewid yn ddim llai o ran arwynebedd ac y byddai'r un mor fanteisiol i'r unigolion hynny oedd â hawl comin, neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd, ac i awdurdodi cael hawliau dros dir a ddynodwyd yn 'fan agored'.

Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Ymgynghori

9. Cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol (ES) ar 10^{fed} Hydref 2013, yn unol â Chyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd 85/337 (fel y'i diwygiwyd). Cyhoeddwyd diweddariad atodol i'r Datganiad Amgylcheddol ar 25^{ain} Chwefror 2014.

10. Cyhoeddwyd "Datganiad i Hysbysu Aseiad Priodol" ("SIAA") a oedd yn asesu goblygiadau'r Cynllun i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a materion cysylltiedig gyda Gorchymyn Llinell a Ffyrdd Ymyl drafft y Cynllun ar 10^{fed} Hydref 2013 yn unol â Chyfarwyddebau'r GE a Rheoliadau'r DU.
11. Cyhoeddwyd atodiad i'r SIAA ar 25^{ain} Chwefror 2014. Paratowyd yr atodiad er mwyn diwygio casgliad yr SIAA gwreiddiol yn sgil trafodaethau â Cyfoeth Naturiol Cymru, lle na lwyddwyd i ddod i gytundeb ynglŷn â lefel yr ansicrwydd ynghylch diffyg effeithiau niweidiol ar Adran Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Wysg.
12. Cyhoeddwyd Datganiad am Atebion Eraill, Rhesymau Hollbwysig o safbwynt Budd Cyhoeddus Tra Phwysig a Mesurau Cydbwyso (SASICOM) ar 25^{ain} Chwefror 2014 yn unol â Chyfarwyddebau'r GE a Rheoliadau'r DU.
13. Yn unol ag Adran 105B o Ddeddf Priffyrdd 1980, rhoddwyd Hysbysiadau Cyhoeddus yn y London Gazette ac yn yr Abergavenny Chronicle yn dweud bod y rhain yn cael eu cyhoeddi ac yn gwahodd sylwadau, ar 10^{fed} Hydref 2013 yng nghyswllt y Datganiad Amgylcheddol a'r SIAA, ac ar 25^{ain} Chwefror 2014 yng nghyswllt yr Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, yr Atodiad i'r SIAA a'r SASICOM. Rhoddwyd yr hysbysiadau, ynghyd â'r holl ddogfennau cysylltiedig, ar adnau a'u hanfon, gyda Chrynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol, at y rhestr o dderbynyddion statudol ac anstatudol sydd wedi'i nodi yn Atodiad A.

LLEOLIADAU ADNEUO

14. Rhoddwyd copïau o'r Gorchymynion drafft, y Datganiad Amgylcheddol, yr Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol, yr SIAA a'r Atodiad i'r SIAA, a'r SASICOM i'w harchwilio yn y lleoliadau canlynol:
 - i. Y Gangen Gorchymynion,
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.
 - ii. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig,
Glyn Ebwy,
NP23 6XB.
 - iii. Cyngor Sir Fynwy,
Siop Un Stop,
Neuadd y Farchnad,
Cross Street,
Y Fenni NP7 5HD.

- iv. Llyfrgell Brynmawr,
Sgwâr y Farchnad,
Brynmawr,
NP23 4AJ.
- v. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Plas y Ffynnon,
Ffordd Cambrian,
Aberhonddu,
LD3 7HP.
- vi. Cyngor Cymuned Llanelli,
Canolfan Gymunedol Gilwern,
Common Road,
Gilwern NP7 0DS
(Ar agor o ddydd Llun i ddydd Mercher rhwng 9.30 a 12.30)

GWRTHWYNEBIADAU, SYLWADAU A CHEFNOGAETH

15. Er i 62 o wrthwynebiadau a 6 o sylwadau ddod i law cyn diwedd yr Ymchwiliad, roedd hyn wedi gostwng i 44 o wrthwynebiadau erbyn i'r Ymchwiliad ddod i ben. Derbyniwyd 21 datganiad o gefnogaeth i egwyddor y cynllun.

ADRODDIAD YR AROLYGYDD

16. Amgaeaf gopi o Adroddiad yr Arolygydd ("yr Adroddiad") sydd bellach wedi cael ei ystyried gan y Gweinidog. Mae pob cyfeiriad yn y llythyr hwn at rifau paragraffau yn cyfeirio at rifau paragraffau yn yr Adroddiad, oni nodir yn wahanol. Mae'r llythyr hwn yn nodi penderfyniad y Gweinidog.
17. Mae copïau o'r Adroddiad, y llythyr hwn a dogfennau'r Datganiad Amgylcheddol hefyd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau adneuo a nodwyd ym mharagraff 14 y llythyr hwn.
18. Mae'r dogfennau a'r cynlluniau a gyflwynwyd gan yr Arolygydd gyda'i Adroddiad ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llywodraeth Cymru, yn y cyfeiriad a nodwyd ym mharagraff 14 y llythyr hwn.
19. Mae'r paragraffau canlynol yn Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol ynghyd â gwrthwynebiadau i'r Gorchmynion drafft:
 - Adran 4 - yr achos dros Lywodraeth Cymru ("y Llywodraeth"), gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol ac effeithiau amgylcheddol y Cynllun;
 - Adran 5 – yr achos dros y cefnogwyr;
 - Adran 6 – yr achos dros y gwrthwynebwyr;
 - Adran 7 – yr achos dros y rheini sy'n rhoi sylwadau;

- Adran 8 - ymateb Llywodraeth Cymru i'r gwrthwynebiadau a'r sylwadau;
- Adran 9 – y dewisiadau eraill yn lle Gorchmynion drafft;
- Adran 10 – casgliadau'r Arolygydd; ac
- Adran 11 – argymhellion yr Arolygydd.

MATERION PENODOL

20. Polisiâu Cynllunio Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol

Ym mharagraffau 10.17 – 10.19, nododd yr Arolygydd bod digonedd o dystiolaeth i ddangos y byddai'r cynllun yn cydymffurfio â pholisiâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ym maes Trafnidiaeth a'r Economi. Nododd na fyddai pob polisi amgylcheddol a phob polisi oedd yn ymwneud â'r dirwedd yn cael ei hybu gan y cynllun, ond roedd y rhain wedi cael sylw trylwyr fel rhan o ddatblygu'r cynllun ac roedd strategaethau clir wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr effaith yn dderbyniol. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad bod y cynllun yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif o bolisiâu ac yn gydnaws â'r egwyddorion ynddynt.

21. Anghenion Amaethyddiaeth

Er bod yr Arolygydd wedi dod i'r casgliad ym mharagraff 10.20 y byddai'r cynllun yn cael effaith niweidiol ar Amaethyddiaeth, roedd yn fodlon na fyddai'r effaith honno'n anghymesur. Aeth ymlaen i ddweud mai ychydig iawn o dir oedd wedi'i ddosbarthu fel y tir gorau a mwyaf amlwrpas a fyddai'n cael ei effeithio a byddai ailosod pridd mewn modd boddhaol yn adfer llawer ohono. Lle'r effeithir ar ffermydd neu ddaliadau unigol, roedd o'r farn bod camau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i leddfu ar yr effaith ar y rhain lle'r oedd hynny'n ymarferol. Daeth i'r casgliad mai effaith ysgafn a gâi'r cynllun yn gyffredinol ar amaethyddiaeth yn nhermau cenedlaethol.

22. Capasiti'r Briffordd Bresennol a'r Briffordd Arfaethedig

Nododd yr Arolygydd ym mharagraff 10.21 bod tystiolaeth gymhellol i ddangos y byddai'r cynllun yn darparu priffordd oedd â digon o gapasiti ar gyfer y traffig a fyddai'n bodoli erbyn blwyddyn dylunio 2032 a, heb ledu'r rhan hon o'r A465, byddai'r traffig erbyn hynny'n broblemus bob dydd ac yn rhwystr sylweddol i adfywio economaidd yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

23. Effeithiau Ffisegol y Briffordd Arfaethedig

Ym mharagraff 10.22 roedd yr Arolygydd o'r farn bod cynigion cadarn o ran rheoli gweithgareddau adeiladu wedi cael eu sefydlu ac y byddai'r rhain yn diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn ystod cyfnod adeiladu'r cynllun hyd lefel dderbyniol. Byddai'r ffaith fod deunyddiau arwynebu oedd yn amsugno sŵn, byndiau sŵn a system goleuadau ffordd fodern wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun yn dod â budd sylweddol i lawer o bobl yn yr ardal gyfagos.

24. Peirianeg ac Adeiladu

Ym mharagraff 10.23, mae'r Arolygydd yn cydnabod ei bod wedi bod yn anodd gweithio'r cynllun heb wyro oddi wrth safonau dylunio arferol, ond bod y gwyradau hyn yn dderbyniol, o gofio'r cyfyngiadau oherwydd y tir, cost

sylweddol dylunio cynllun a fyddai'n cydymffurfio'n llawn â Safonau a'r effaith ychwanegol sylweddol y byddai cynllun oedd yn cydymffurfio'n llawn yn ei chael ar yr amgylchedd.

Ym mharagraff 10.24 aeth yr Arolygydd ymlaen i ddweud y byddai'r cynllun, a'r gwaith adeiladu yn benodol, yn effeithio ar lwybrau ceffylau, llwybr beics a llwybrau troed, ond, yn ei farn ef, tra bod effeithiau dros dro'r cyfnod adeiladu yn rhesymol, ar ôl i'r gwaith hwnnw orffen, byddai'r cynllun a'i effeithiau atodol yn gwella rhwydweithiau er mwynhad a chyfleustra hirdymor y cyhoedd. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad y byddai'r cynllun yn dod â buddion hirdymor yn ei sgîl i'r rheini sy'n defnyddio llwybrau tramwy cyhoeddus.

25. Elfennau Economaidd ac Amcanion

Ym mharagraff 10.27, mae'r Arolygydd yn cadarnhau ei fod yn credu bod achos profedig o blaid y cynllun ar sail mantais economaidd ar wahân i'w bosibiliadau ehangach. Mae'n dod i'r casgliad bod achos economaidd da dros fwrw ymlaen â'r cynllun ac y dylai'r gwaith o'i adeiladu gynorthwyo ag ymdrechion i adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd. Byddai'r holl amcanion yn cael eu cyflawni i raddau helaeth a byddai gwireddu'r amcanion hynny, yn ei farn ef, yn dod a budd cyhoeddus sylweddol o ran traffig trwodd ac, o bosibl, economi Cymoedd De Cymru.

26. Yr Effaith ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac ar Rywogaethau a Chynefinoedd

Ym mharagraff 10.28, mae'r Arolygydd yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal astudiaethau manwl er mwyn asesu'r effaith a gâi'r cynllun ar y dair Ardal Cadwraeth Arbennig, sef: Safleoedd Ystlumod Wysg, Coetiroedd Cwm Clydach a'r Afon Wysg. Mae'r rhain wedi arwain at baratoi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol cynhwysfawr o'r effaith y gallai'r cynllun ei chael ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Mae barn arbenigwr Llywodraeth Cymru a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darbwyllo'r Arolygydd y gallai'r cynllun gael effaith andwyol ar yr ystlum pedol lleiaf yn y tymor byr, gan na fyddai modd lliniaru'n llwyr ar yr effaith a gâi tynnu coed a llwyni yn ystod camau cynnar y gwaith adeiladu hyd nes y byddai'r planhigion a gaiff eu plannu yn eu lle wedi tyfu digon. Er hynny, mae'r Arolygydd yn fodlon mai bach fydd yr effaith ar y rhywogaeth a'i bod yn amlwg, y tu hwnt i'r tymor byr, y byddai camau helaeth yn cael eu cyflwyno i liniaru ar yr effaith. Bydd y planhigion a gaiff eu plannu a'r clwydydd newydd a fydd yn cael eu darparu ar gyfer yr ystlumod yn cael eu cynnal a'u cadw a'u targedu'n dda sy'n golygu, yn y pen draw, y bydd y sefyllfa'n well na'r sefyllfa bresennol.

Mae'r Arolygydd yn dod i'r casgliad ym mharagraff 10.35 y dangoswyd nad oedd unrhyw ddewisiadau eraill a allai'n rhesymol gyflawni amcanion y cynllun; mae'n amlwg bod gwireddu'r cynllun yn hollbwysig er budd y cyhoedd; mae'r camau gwneud iawn yn amrywiol, yn eang ac yn helaeth, a byddai'r rhain yn sicrhau bod cydlyniant cyffredinol Natura 2000 yn cael ei ddiogelu.

Mae'r Arolygydd o'r farn, ym mharagraff 10.36, y gall Gweinidogion Cymru (fel yr Awdurdod Cymwys) fod yn sicr bod y profion a bennwyd gan y Rheoliadau wedi cael eu bodloni ac felly, gall y cynllun fynd yn ei flaen.

27. Y Datganiad Amgylcheddol a'r Atodiad iddo

Dywed yr Arolygydd ym mharagraff 10.37 bod Datganiad Amgylcheddol Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyhoeddi yn unol â Chyfarwyddebau'r DU ac Ewrop a nodir yr ymgynghorwyd â'r holl Awdurdodau Statudol wrth ddatblygu'r cynllun. Mae'n mynd ymlaen i ddweud nad oedd unrhyw heriau difrifol i'r Datganiad Amgylcheddol nad oedd wedi cael sylw yn yr Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol a'r gohebu a fu rhwng y partïon.

Daw'r Arolygydd i'r casgliad ym mharagraff 10.38 ei fod yn fodlon bod y Datganiad Amgylcheddol a'r Atodiad iddo yn bodloni gofynion yr amrywiol Ddeddfau a Chyfarwyddebau ac yn lleddfu pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Sir Fynwy.

Yng nghyswllt yr effaith amgylcheddol gyffredinol, mae'r Arolygydd yn nodi ym mharagraff 10.39 bod Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Awdurdodau Lleol i gyd wedi derbyn y cynllun a'i effaith amgylcheddol erbyn i'r Ymchwiliad ddod i ben, ar yr amod ei fod yn parhau i gael ei fonitro ac y cyflawnir y tasgau sydd wedi'u nodi yn y Gofrestr Ymrwymadau.

28. Sŵn Traffig, Sŵn Adeiladu a Dirgrynu

Daw'r Arolygydd i'r casgliad ym mharagraff 10.40 y byddai'r cynllun yn lleddfu'n sylweddol ar y sŵn traffig a geir ar hyn o bryd ar hyd yr A465. Byddai nifer sylweddol fwy o adeiladau yn cael budd nag a fyddai'n dioddef anfantais. Ni fyddai unrhyw eiddo'n dioddef lefelau sŵn annerbyniol. Mae'r effaith ar fannau agored sensitif wedi'i gydbwyso, gyda rhai yn profi cynnydd yn y sŵn, ond ni fyddai'r effaith ar unrhyw un yn anghymesur. Dywed hefyd y byddai'r cynllun yn dderbyniol o ran sŵn traffig ym mhob man ac, at ei gilydd, byddai'n fuddiol o ran lleddfu ar y sŵn canfyddadwy mewn ardaloedd preswyl. Byddai'r effaith yn sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu a rhaid wrth benodi Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd, ond, wedi trefnu hynny, byddai effaith gyffredinol y sŵn adeiladu, er yn andwyol, yn dderbyniol.

Ym mharagraff 10.41, mae'r Arolygydd yn dweud nad oedd unrhyw dystiolaeth i ategu pryderon ynghylch dirgrynu a sefydlogrwydd, cyn belled ag y rhoddir trefniadau monitro priodol ar waith.

29. Ansawdd yr Aer

Dywed yr Arolygydd ym mharagraff 10.42 ei fod yn argyhoeddedig nad yw'r cynigion yn fygythiad o ran unrhyw drothwyon ansawdd aer perthnasol nac unrhyw ystyriaethau o ran iechyd pobl ac na fyddai llygredd aer yn peri i'r amgylchedd naturiol ddioddef mewn unrhyw ffordd sy'n annerbyniol.

30. Y Dirwedd

Dywed yr Arolygydd ym mharagraffau 10.43 – 10.45 bod y cynigion o safbwynt y dirwedd, at ei gilydd, wedi cael eu hystyried yn drwyadl. Mae'r amgylchedd y byddai'r cynllun yn mynd drwyddo, er ei fod eisoes wedi cael ei effeithio gan y ffordd bresennol a seilwaith arall amlwg, yn sensitif; ond, ym marn yr Arolygydd, cyn belled ag y bydd trafodaethau gyda Chyrff Statudol ynghylch y manylion hyn yn parhau, ceir canlyniad boddhaol.

31. Treftadaeth Ddiwylliannol

Er bod yr Arolygydd wedi nodi ym mharagraff 10.46 y byddai llawer o'r cynllun yn mynd drwy, neu yn agos at, ardaloedd cyfoethog a chrynodedig iawn o ran treftadaeth ddiwylliannol, ac y byddai, wrth wneud hynny, yn achosi rhai effeithiau andwyol, roedd yn argyhoeddedig na fyddai'r effeithiau hyn yn anghymesur ac y byddent yn fanteisiol mewn manau.

Daeth i'r casgliad, cyn belled ag y mabwysiedir agwedd ochelgar tuag at nodweddion sensitif rhai safleoedd penodol ac y gweithredir yn unol â'r ymrwymadau a wnaed, byddai effaith y cynllun ar dreftadaeth ddiwylliannol yn dderbyniol.

32. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Nododd yr Arolygydd ym mharagraff 10.50 fod Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddod i gytundeb ynghylch cynnwys y Gofrestr Ymrwymadau a'r Protocol oedd i'w ddilyn cyn ac yn ystod y gwaith adeiladu, ac yn ystod y cyfnod cynnal a chadw fel bod modd llywio datblygiad y cynllun yn unol â'r cytundebau, ac mae'n rhaid i'r rhain fod yn rhwymol.

33. Pont Droed Dan-y-Coed

Er ei fod yn cydnabod y byddai'r addasiad i'r bont droed a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (y cyfeirir ato fel Addasiad R) yn gwella ar y cynnig a roddwyd gerbron yn y cynllun cyhoeddedig, mae'r Arolygydd o'r farn o hyd nad yw'n dderbyniol ar sail esthetig. Felly, mae'n argymhell gosod stepiau neu ramp syth yn lle'r ramp presennol. Mae'r drafodaeth ynghylch yr addasiad diwygiedig y mae'r Arolygydd wedi'i awgrymu (y cyfeirir ato fel Addasiad X) wedi'i nodi ym mharagraff 54 y llythyr hwn.

34. Hayman's Cottage

Mae'r Arolygydd yn credu na fyddai gosod ffens byrddau caeedig ar hyd ffiniau Hayman's Cottage yn effeithiol o ran gostegu sŵn y traffig ac y byddai'r gost yn annerbyniol. Fel dewis arall, mae'r Arolygydd yn argymhell ym mharagraff 10.79 y gellid codi rhwystr solet ar hyd y lôn gerbydau tua'r gorllewin yn lle rhwystr metel safonol, a fyddai'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â safonau diogelwch.

35. Pont Droed Gilwern a Safleoedd Bysus Gilwern

Gweler y sylwadau ar Ddewisiadau 2a a 2b ym mharagraffau 43 a 44 y llythyr hwn. Ym mharagraff 10.97 mae'r Arolygydd yn derbyn y byddai'n anodd iawn lleoli safleoedd bysus ar yr A465, ac, o gofio ei argymhelliad yng nghyswllt Pont Droed Gilwern, daw i'r casgliad bod y cynigion ynghylch gosod safleoedd bysus yng Ngilwern yn rhesymol, er nad ydynt yn ddelfrydol.

36. Ymrwymadau ac Ymgynghori Parhaus

Mae'r Arolygydd yn nodi sawl enghraifft lle mae ymgynghori parhaus rhwng tîm y prosiect a rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys y Cyhoedd) yn ofniad allweddol yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn ogystal, mae'r Arolygydd yn cydnabod fod yr ymrwymadau a nodwyd yn y gofrestr yn ymdrin â nifer o bryderon.

37. Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Dywed yr Arolygydd ym mharagraff 10.175 y daethpwyd i gytundeb fwy neu lai, at ddibenion ymarferol, yn amodol ar union eiriad y Gofrestr Ymrwymadau. Ym mharagraffau 10.11 a 10.174 - 10.176, mewn ymateb i wrthwynebiad yr Ymddiriedolaeth i bryniant gorfodol o'i thir, mae'r Arolygydd wedi dod i'r casgliad na fyddai hynny'n amharu'n ddifrifol ar yr Ymddiriedolaeth Camlesi o ran cyflawni unrhyw ddyletswyddau oedd wedi'u nodi yn yr Ymchwiliad. Fel arfer, pan geir gwrthwynebiadau gan ymgymrwyr statudol rhaid cyhoeddi tystysgrif gan y 'Gweinidog priodol' i'r perwyl hwnnw o dan adran 16(2) Deddf Caffael Tir 1981 cyn y gellir cynnwys y tir dan sylw yn y gorchymyn prynu gorfodol. Fodd bynnag, nid Gweinidogion Cymru yw'r 'Gweinidog priodol' at ddibenion adran 16 y Ddeddf ac felly nid ydynt yn gallu cyhoeddi tystysgrif o'r fath. Hefyd, nodwyd na chyflwynwyd unrhyw achos gerbron y 'Gweinidog priodol' o fewn y cyfnod gwrthwynebu statudol.

DEWISIADAU ERAILL

38. Cyflwynwyd wyth dewis arall yn lle'r cynllun a gyhoeddwyd a'u rhoi gerbron yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Sef:

- Dewis 1a – Ffordd ymadael ychwanegol tua'r gorllewin yng Ngilwern
- Dewis 1b – Ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yng Ngilwern
- Dewis 2a – Pont droed newydd gyda grisiau yng Ngilwern
- Dewis 2b – Pont droed newydd gyda rampiau yng Ngilwern
- Dewis 3 - Ailwampio Cyffordd Brynmawr (Dewisiadau 1 a 2)
- Dewis 4 – Isbont heb unrhyw ffyrdd ymuno ac ymadael yng Ngilwern
- Dewis 5 - Cymysgfa un lefel o ffyrdd cerbydau sengl a deuol
- Dewis 6 - Ffordd safonol isel drwy Geunant Clydach.

Ac eithrio Dewis 6, cyhoeddwyd a dosbarthwyd manylion y Dewisiadau Eraill hyn yn yr ardal leol. Ystyriwyd yr holl Ddewisiadau gan yr Arolygydd yn ystod yr Ymchwiliad, ynghyd â'r ymatebion a gafwyd i'r awgrymiadau hyn ac mae'r casgliadau y daeth iddynt ynghylch y Dewisiadau wedi'u nodi yn ei Adroddiad ym mharagraffau 10.184 - 10.212.

DEWIS 1a

39. Cydnabu'r Arolygydd fod y Dewis hwn wedi cael ei roi gerbron gan gredu y byddai'n darparu cysylltiad cynt o'r Fenni i ardal Station Road ac Old Trap Road. Cydsyniodd yr Arolygydd mai felly yr oedd, ond roedd hefyd yn credu y

byddai'n cynnig dewis mwy deniadol i gerbydau drwy Gilwern ac i Grucywel. Byddai hyn bron iawn yn dyblu llif y traffig ar hyd Main Road, Gilwern sy'n gyfyng ac yn sensitif o gofio bod y bobl leol wedi gwneud cais yn ystod yr Ymchwiliad am beidio rhoi baich traffig ychwanegol arni. Felly roedd yr Arolygydd yn cwestiynu a ellid cyfiawnhau'r gost ychwanegol er mwyn gwasanaethu cymunedau Station Road ac Old Trap Road, o gofio'r anfanteision a fyddai'n codi ar hyd Main Road. Nododd yr Arolygydd hefyd yr elfen o wrthdaro a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r A465 oherwydd agosatrwydd y gyffordd hon i'r ffordd ymuno tua'r gorllewin yn Glanbaiden.

40. Tybiai'r Arolygydd mai ychydig iawn oedd i'w ddweud o blaid y dewis hwn ac y byddai'n dod â chryn anfanteision yn ei sgîl, felly daeth i'r casgliad na ddylid ei ystyried ymhellach.

DEWIS 1b

41. Nododd yr Arolygydd y cydbwysedd bras rhwng y bobl leol oedd o blaid ac yn erbyn y dewis hwn. Roedd yn cydnabod y byddai'r dewis hwn yn golygu y byddai pellter teithio trigolion Station Road ac Old Trap Road oedd yn teithio tuag at Frynmawr tua 3Km yn fyrrach, ond dywedodd hefyd y byddai hyn ar hyd rhwydwaith ffyrdd hwylus a modern i raddau helaeth o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol ac felly ni fyddai'r siwrnai'n cymryd fawr ddim mwy o amser, er y byddai, o drwch blewyn, yn cynnig dewis arall rhesymol ar gyfer cerbydau modur. Ond roedd yr Arolygydd yn argyhoeddedig y byddai'r dewis hwn yn creu prysurdeb sylweddol o ran y traffig hyd Main Road a Back Road yn ogystal â gwrthdaro sylweddol o ran traffig yn gwau trwy'i gilydd o gofio pa mor agos yw'r ffordd ymuno tua'r gorllewin yn Glanbaiden.
42. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad bod gan Dewis 1b ei rinweddau ond roedd yr effaith ar Main Road a Back Road, Gilwern yn gwrthbwysu'r rhain. Felly daeth yr Arolygydd i'r casgliad nad oedd angen ei adeiladu fel rhan o'r cynllun, ond na ddylid diystyru'r cysyniad yn barhaol.

DEWIS 2a a 2b

43. Ystyriodd yr Arolygydd y ddau ddewis tebyg hyn i ddarparu pont droed yng Ngilwern gyda'i gilydd. Roedd yr Arolygydd yn teimlo nad oedd yn credu y gellid ystyried llwybr arall i gerddwyr ar draws y bont gerbydau yn ddewis cymharol gyfleus i gerddwyr. At hyn, teimlai y byddai diffyg pont droed yn anghymell pobl i gerdded yn hytrach na gyrru ac roedd hynny'n groes i rai o amcanion y cynllun. Felly, daeth yr Arolygydd i'r casgliad nad oedd angen pont droed yng Ngilwern.
44. O'r ddau ddewis yn ymwneud â phont droed a roddwyd gerbron, roedd yr Arolygydd o'r farn bod y naill a'r llall yn dderbyniol, ond bod Dewis 2a yn well gan y byddai hwn yn golygu llwybr byrrach i gerddwyr, ni fyddai mor ddud ac ymwithiol a byddai hefyd yn ddewis mwy cynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd. Nododd yr Arolygydd bod gan y strwythur presennol risiau felly ni fyddai'n peri

anfantais i bobl anabl gan y byddai troetffordd y bont ffordd tua'r dwyrain yn darparu ar eu cyfer. Felly, argymhelliad yr Arolygydd oedd y dylid addasu'r Gorchmynion i gynnwys Dewis 2a (Y manylion wedi'u cynnwys fel Addasiad W yn Atodiad C i'r adroddiad ac Atodiad B i'r llythyr hwn).

DEWIS 3

45. Mae'r Arolygydd yn derbyn y byddai Dewis 3a yn osgoi cyn safle Ffatri Anacomp lle y rhoddyd caniatâd cynllunio i godi tai, a byddai hyn yn cynrychioli mantais sylweddol dros y cynllun cyhoeddedig. Cred hefyd fod y ffaith y byddai ei ôl troed yn llai ym Mrynmawr ac na fyddai ei effaith weledol mor amlwg ar ardaloedd preswyl yn rhoi gwerth iddo. Serch hynny, nid yw'r Arolygydd o'r farn y byddai'r dewis yn dod â llawer o fanteision ychwanegol o ystyried y gost ychwanegol sylweddol ac er ei fod yn cynnig amseroedd teithio is, ni fyddai'n datrys y broblem o draffig trwm yn llifo heibio'r ysgol. Byddai hefyd yn cael nifer o effeithiau andwyol ar dreftadaeth a thirwedd, yn enwedig ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ym Mrynmawr.
46. Daw'r Arolygydd i'r casgliad ym mharagraff 10.204 y byddai Dewis 3a yn cynnig ateb derbyniol o safbwynt y briffordd, ond mae'n argyhoeddedig y byddai'r cynllun cyhoeddedig hyd yn oed yn fwy derbyniol. Felly, ym mharagraff 10.204, mae'n argymhell na ddylid bwrw ymlaen ddim pellach â'r dewis hwn.
47. Yn yr un modd, mae'r Arolygydd yn credu bod gwerth i'r ail ddewis yng Nghyffordd Brynmawr (Dewis 3b) fel ateb o safbwynt y briffordd, ond, unwaith eto, byddai'n cael effaith fawr ar yr amgylchedd ac nid yw'r buddion a ddeuai yn ei sgîl yn ddigon i wrthbwysu'r anfanteision. Felly, daw'r Arolygydd i'r casgliad ym mharagraff 10.205 nad yw hwn yn well dewis o ystyried popeth ac na ddylid bwrw ymlaen ag ef.

DEWIS 4

48. Mewn ymateb i'r cynnig y dylid cael gwared â phob ffordd ymuno a ffordd ymadael yng Nghyffordd Gilwern, ym Mharagraff 10.206 daw'r Arolygydd i'r casgliad, er y byddai hyn yn fanteisiol i Westy'r Navigation, byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar dai preswyl a byddai'r manteision gryn dipyn yn llai i'r cymunedau lleol o safbwynt defnyddio'r A465. Felly, oherwydd hyn, ni ddylid bwrw ymlaen ddim pellach â'r dewis hwn.

DEWIS 5

49. Dywed yr Arolygydd ym Mharagraff 10.207 y byddai'r Dewis hwn gryn dipyn yn llai costus ac y byddai'n lleddfu llawer ar y tarfu drwy Geunant Clydach. Serch hynny, byddai'n methu cyflawni amcanion y cynllun a byddai'r ffaith na fyddai'n gallu darparu ar gyfer y llif traffig a ragwelir yn golygu na fyddai'n sicrhau digon o enillion ar gyfer cyllid cyhoeddus. Mae'r Arolygydd yn

argymell na ddylid bwrw ymlaen ddim pellach â'r Dewis hwn gan na fyddai'n darparu unrhyw welliant ystyrlon i'r A465.

DEWIS 6

50. Dywed yr Arolygydd ym Mharagraff 10.208 a 10.209 na ellid asesu rhinweddau'r Dewis hwn yn llawn oherwydd bod y sawl sy'n ei gynnig wedi methu cadarnhau'r cynnig penodol. Serch hynny, ymdriniwyd yn eithaf manwl â'r cynnig yn ystod yr Ymchwiliad. Hefyd yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn 1998 roedd Arolygydd yr ymchwiliad ar y pryd wedi gwrthod Dewis tebyg yn bendant. Felly daeth yr Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r Dewis hwn yn mynd i'r afael ag amcanion y cynllun ac na ddylid rhoi ystyriaeth bellach iddo.

TIR COMIN

51. Ym mharagraff 10.226 mae'r Arolygydd yn argymell caniatáu'r tystysgrifau perthnasol gan ei fod yn fodlon bod y profion a nodwyd ym mharagraffau 10.6 a 10.7 ei Adroddiad wedi cael eu bodloni.

MANNAU AGORED

52. Ym mharagraff 10.226 mae'r Arolygydd yn argymell caniatáu'r tystysgrifau perthnasol gan ei fod yn fodlon bod y profion a nodwyd ym mharagraffau 10.6 a 10.7 ei Adroddiad wedi cael eu bodloni.

ADDASIADAU I'R GORCHMYNION

53. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig addasiadau i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft a gyhoeddwyd. Rhoddwyd y rhain gerbron yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus ac maent wedi'u rhestru fel addasiadau A-U i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn Atodiad B i'r llythyr hwn. Maent hefyd wedi'u rhestru yn Atodiad C i Adroddiad yr Arolygydd. (Roedd Addasiad A, a oedd yn nodi mân newidiadau teipio neu newidiadau er eglurder neu fân gywiriadau er mwyn diweddarau manylion perchnogaeth yng nghyswllt bob un o'r tri Gorchymyn drafft, yn cynnwys rhai mân newidiadau er eglurder i'r Gorchymyn Diwygio (Linell).
54. Argymhellodd yr Arolygydd dri addasiad arall a fyddai, dywed ym mharagraff 10.230, yn gwella'r cynllun ac yn ei wneud yn fwy derbyniol yn lleol. Nododd y rhain yn Atodiad C i'w Adroddiad, lle cyfeirir atynt fel addasiadau V, W ac X. Argymhelliad yr Arolygydd oedd mabwysiadu Addasiad X yn lle Addasiad R. Mae'r tri addasiad hyn, sy'n ymwneud ag Intermediate Road, Pont Droed Dan-y-Coed a'r llwybr troed sy'n gysylltiedig â mabwysiadu Dewis 2a, wedi cael eu derbyn ac maent wedi'u cynnwys fel addasiadau V, W ac X i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl yn Atodiad B i'r llythyr hwn.
55. Mae Addasiad Y yn Atodiad B i'r llythyr hwn yn nodi ac yn cyflwyno mân newidiadau sy'n angenrheidiol i ddiweddarau manylion perchnogaeth ers cynnal

yr Ymchwiliad Cyhoeddus ac i wneud newidiadau teipio a newidiadau er eglurhad eraill, gan gynnwys ad-drefnu plotiau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol er mwyn gallu cynnwys addasiad H a chynnwys ffyrdd mynediad preifat newydd (Cyfeirnod Gorchymyn Ffyrdd Ymyl 2/2a) yn Field House.

56. Yn dilyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus, mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi cyflwyno mân newid arall i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl sy'n ymwneud â phriffyrdd newydd 2/A, 2/B a ffyrdd mynediad preifat 2/13a ym Mhont Harri Isaac. Cyfeirir at hwn fel addasiad AA yn Atodiad B i'r llythyr hwn. Cyhoeddwyd llyfryn ymgynghori ffurfiol 'Modification – Lowered Eastbound Carriageway Between Brynmawr Junction Overbridge and the Water Works' a'i anfon ar 1^{af} Awst 2014 at gyrrff ymgynghori statudol ac anstatudol oedd â diddordeb ac at unigolion y byddai'r newid hwn yn effeithio arnynt. Gwahoddwyd sylwadau erbyn 22^{ain} Awst 2014 a daeth tri ymateb i law. Mae manylion y rhain wedi'u nodi ym mharagraffau 57-59 isod. Mae ystyriaeth y Gweinidog o'r ohebiaeth a gafwyd mewn ymateb i'r addasiad hwn wedi'i nodi ym mharagraff 75 isod.
57. Roedd Cadw o'r farn bod manteision yr addasiad o ran lleihau swmp y strwythurau arfaethedig yn gorbwyso unrhyw anfanteision cysylltiedig ag effaith traffig sy'n mynd heibio ar yr heneb cofrestredig (Bwa Hafod). Felly, yn eu barn nhw, byddai'n well ganddynt yr addasiad na'r cynllun cyhoeddedig.
58. Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei fod yn cefnogi'r addasiad arfaethedig at ei gilydd oherwydd ei fod yn credu y byddai'n lleddfu ar effaith weledol y wal gynnal ganolog ac yn gwella hygyrchedd a diogelwch i gerddwyr a marchogion. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod yr arbedion clir o ran cost. Fodd bynnag, gofynnodd am eglurhad pellach ar yr effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd yn sgîl y strwythurau cynnal i'r gogledd o'r lôn gerbydau oedd dan sylw yn yr addasiad.
59. Nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnig na chefnogaeth na gwrthwynebiad i'r addasiad, gan ddweud bod angen rhagor o wybodaeth am y strwythurau cynnal i'r gogledd o'r lôn gerbydau i asesu'r effaith weledol yn llawn. Fodd bynnag, cydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'r newid yn niwtral yng nghyswllt y cynllun cyhoeddedig. Hefyd, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o sylwadau cyffredinol oedd yn ymwneud ag agweddau eraill ar yr addasiad a fyddai, roedd yn cydnabod, yn arwain at newid sylweddol i'r hyn roedd wedi'i ddangos yn y cynllun cyhoeddedig.

CASGLIADAU CYFFREDINOL YR AROLYGYDD YNGHYLCH Y CYNLLUN

60. Ym mharagraffau 10.228 – 10.233 daw'r Arolygydd i'r casgliad bod achos cymhellol o blaid y Cynllun gan ei fod yn cyflawni ei amcanion yn dda ac y byddai'n dod â budd mawr i'r cyhoedd. Wrth ddod i'r casgliad hwn, ystyriodd yr addasiadau arfaethedig a gyflwynwyd yn yr Ymchwiliad, unrhyw addasiadau y mae wedi'u hargymell yn ei adroddiad y mae ef yn eu hystyried yn angenrheidiol, a'r holl wrthwynebiadau, sylwadau ac awgrymiadau eraill a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad, ynghyd â'r rheini a wnaed yn ysgrifenedig, neu a

wnaed ar lafar yn ystod yr Ymchwiliad, ond gyda'i gilydd neu ar wahân, nid oeddynt yn gorbwyso'r casgliadau y daethai iddynt.

YSTYRIAETH Y GWEINIDOG

MATERION PENODOL

61. Polisi Lleol a Chenedlaethol
Mae'r Gweinidog yn fodlon y rhoddwyd ystyriaeth i Gynllunio Lleol a Chenedlaethol wrth baratoi'r cynllun ac y byddai, ar ôl pwysu a mesur ar sail polisïau cenedlaethol, yn dderbyniol.
62. Effaith ar Amaethyddiaeth
Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd ym mharagraff 10.21 mai effaith fach a gâi'r cynllun ar amaethyddiaeth yn nhermau cenedlaethol.
63. Capasiti'r Briffordd Bresennol a'r Briffordd Arfaethedig
Mae'r Gweinidog yn cytuno â'r Arolygydd y byddai amodau traffig, heb y cynllun, yn dod yn broblemus ac yn rhwystr sylweddol i adfywio economaidd yn ardal Blaenau'r Cymoedd.
64. Effeithiau Ffisegol y Briffordd Arfaethedig
Mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd bod cynigion cadarn o ran rheoli gweithgareddau adeiladu wedi cael eu sefydlu ac y byddai'r rhain yn diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn ystod cyfnod adeiladu'r cynllun hyd lefel dderbyniol.
65. Peirianeg ac Adeiladu
Mae'r Gweinidog yn cytuno â chrynodeb yr Arolygydd o'r cyfyngiadau peirianegol a, drwy gyflwyno'r addasiadau arfaethedig a gan gydnabod y tarfu dros dro dichonol yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai'r rhwydwaith o lwybrau troed a'r llwybr beics yn cael eu gwella a bod y cynllun yn cynnig pecyn cynhwysfawr o gamau i helpu marchogion.
66. Yr Eifen Economaidd ac Amcanion
Mae'r Arolygydd yn cytuno â'r Arolygydd y byddai'r cynllun yn dod â budd economaidd ac y dylai'r gwaith o'i adeiladu helpu gydag ymdrechion i adfywio ardal Blaenau'r Cymoedd.
67. Yr Effaith ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac ar Rywogaethau a Chynefinoedd
Mae'r Gweinidog yn cytuno gyda chasgliad yr Arolygydd bod Datganiad i Hysbysu Aseiad Priodol cynhwysfawr o'r effaith y gallai'r cynllun ei chael ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi cael ei baratoi a bod y profion a

bennwyd gan y Rheoliadau wedi cael eu bodloni ac felly, gall y cynllun fynd yn ei flaen.

68. Y Datganiad Amgylcheddol a'r Atodiad iddo

Mae'r Gweinidog yn fodlon bod gofynion yr amrywiol Ddeddfau a Chyfarwyddbau wedi cael eu bodloni. Gweler Paragraffau 82 i 84 y llythyr hwn.

69. Sŵn Traffig, Sŵn Adeiladu a Dirgrynu

Mae'r Gweinidog yn cytuno gyda'r Arolygydd y byddai'r cynllun yn lleddfu'n sylweddol ar y sŵn traffig a geir ar hyn o bryd ar hyd yr A465 ac y byddai nifer sylweddol fwy o adeiladau yn cael budd nag a fyddai'n dioddef anfantais. Ni fyddai unrhyw eiddo'n dioddef lefelau sŵn annerbyniol. O ran sŵn adeiladu, mae'r Gweinidog unwaith eto'n derbyn crynodeb yr Arolygydd y byddai'r effaith gyffredinol, er yn andwyol, yn dderbyniol, ac na ddylai unrhyw bryderon ynghylch dirgrynu a sefydlogrwydd godi eu pennau cyn belled ag y rhoddir camau monitro priodol ar waith.

70. Ansawdd yr Aer

Mae'r Gweinidog yn cytuno â barn yr Arolygydd, sef, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr Ymchwiliad, nid yw'r cynigion yn peri unrhyw fygythiad o ran iechyd pobl ac ni fydd yr amgylchedd naturiol yn dioddef mewn unrhyw ffordd sy'n annerbyniol.

71. Y Dirwedd, Ymrwymadau ac Ymgynghori Parhaus

Mae'r Gweinidog yn nodi casgliad yr Arolygydd, sef y rhoddwyd ystyriaeth drylwyr i faterion yn ymwneud â'r dirwedd yn ystod yr ymgynghoriad â Chyrff Statudol perthnasol ac y byddai rhyngweithio parhaus yn arwain at ateb boddhaol o ran y cynllun yn pasio drwy'r ardal sensitif hon. Mae'r Gweinidog yn cytuno bod ymgynghori parhaus rhwng tîm y prosiect a chyrff ymgynghori statudol ac anstatudol a rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys y Cyhoedd) yn ofyniad allweddol ac mae'n fodlon y bydd ymrwymadau, a thrafod parhaus fel y bydd y cynllun manwl yn mynd rhagddo, yn ymdrin ag unrhyw bryderon sydd yn weddill.

72. Treftadaeth Ddiwylliannol

Mae'r Gweinidog yn derbyn casgliad yr Arolygydd y byddai'r cynllun yn cael rhywfaint o effaith niweidiol, ond na fyddai'r effaith honno'n anghymesur, ac y byddai, mewn manau, yn fuddiol.

73. Pont Droed Dan-y-Coed [BM(-T3)]

Mae'r Gweinidog yn derbyn sylwadau'r Arolygydd yng nghyswllt effaith weledol aliniad y bont ar drigolion Dan-y-Coed. Felly mae'r Gweinidog yn derbyn yr addasiad y cyfeirir ato fel Addasiad X a gynigwyd gan yr Arolygydd.

74. Pont Droed Gilwern a Safleoedd Bysus Gilwern

Mae'r Gweinidog yn cytuno â'r Arolygydd y dylid darparu pont droed yng Ngilwern. Mae wedi ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth bwysu a mesur y ddau ddewis a roddwyd gerbron.

Mae'r Gweinidog wedi derbyn Dewis 2a a'r addasiadau a argymhellwyd gan yr Arolygydd yng nghyswllt y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl mewn perthynas â Phont Droed Gilwern ym mharagraffau 10.201 a 10.212.

Mae'r Gweinidog hefyd yn cytuno â'r Arolygydd ynghylch y safleoedd bysus yng Ngilwern a daw i'r casgliad bod y darpariaethau yn y cynllun cyhoeddus yn rhesymol.

75. Y Llyfryn: – 'Lowered Eastbound Carriageway Between Brynmawr Junction Overbridge and the Water Works'

Noda'r Gweinidog fod y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r llyfryn ymgynghori uchod at ei gilydd yn gefnogol neu'n niwtral ac y gellir ymdrin â'r unig bryderon a godwyd drwy drafodaeth barhaus a drwy gynnwys ymrwymadau wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Yn gyffredinol, mae'r Gweinidog o'r farn y gellid symleiddio'r cynllun a'r gwaith adeiladu, gan ostwng costau, gwella diogelwch o ran adeiladu a chynnal a chadw walïau cynnal, lleddfu ar y tarfu a geir yn ystod y cyfnod adeiladu a galluogi creu llwybr ceffylau sy'n fwy hwylus na chyfuniad o bont droed/tanlwybr ym Mhont Harri.

76. Hayman's Cottage

Mae'r Gweinidog yn derbyn sylwadau'r Arolygydd ynghylch yr angen i gael ffens solet ar hyd y lôn gerbydau yn y lleoliad hwn ac yn cytuno i ddarparu hyn.

77. Ymrwymadau ac Ymgynghori Parhaus

Mae'r Gweinidog yn cydnabod bod ymgynghori sylweddol wedi digwydd wrth ddatblygu'r cynllun hwn i'r cam hwn a'r ymrwymadau a wnaed i nifer o bartïon yn y Gofrestr Ymrwymadau. Mae'r Gweinidog yn cytuno y cyflawnir yr ymrwymadau hyn fel rhan o'r cynllun ac y parheir i ymgynghori ar lefel briodol.

78. Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Mae'r Gweinidog yn cytuno gyda'r Arolygydd na nodwyd unrhyw effaith andwyol ddifrifol o ran yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni dyletswyddau 'ymgymerwr statudol' ac y daethpwyd i gytundeb fwy neu lai ynghylch geiriad y Gofrestr Ymrwymadau.

DEWISIADAU ERAILL

79. Mae'r Gweinidog yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd ym mharagraffau 10.210 – 10.212 nad yw dewisiadau 1a, 3a, 4, 5, a 6 gystal â'r cynigion sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Gorchymynion drafft ac er bod gan 3b ei rinweddau, nid yw'n well na'r cynllun arfaethedig. Felly ni ellir cyfiawnhau ystyried y rhain ymhellach.

80. Mae'r Gweinidog yn derbyn sylwadau'r Arolygydd o ran rhinweddau Dewis 1b, ond yn cytuno na ddylid ystyried hwn ymhellach ar hyn o bryd.
81. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 74 uchod, mae'r Gweinidog yn cytuno gydag asesiad yr Arolygydd o Ddewisiadau 2a a 2b ac yn derbyn y dylid mabwysiadu pont droed yn unol â Dewis 2a.

DATGANIAD AMGYLCHEDDOL, DATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL A DATGANIAD AM ATEBION ERAILL, RHESYMAU HOLLBWYSIG O SAFBWYNT BUDD CYHOEDDUS TRA PHWYSIG A MESURAU CYDBWYSO

82. Mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus yr achos o blaid y Cynllun, y Datganiad Amgylcheddol a phob barn a fynegwyd gan aelodau'r cyhoedd a chyrrff ymgynghori ar y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Gweinidog yn derbyn bod angen y Cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac a amlinellwyd ym mharagraff 3 y llythyr hwn, ond bod yn rhaid cydbwysu'r angen hwn ag effaith amgylcheddol y Cynllun ac unrhyw farn a fynegwyd gan aelodau'r cyhoedd a chyrrff ymgynghori.
83. Mae'r Gweinidog yn fodlon y rhoddwyd sylw digonol i'r ymatebion i'r Datganiad Amgylcheddol a'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol. Noda'r Gweinidog nad oes unrhyw gorff amgylcheddol statudol wedi cynnal gwrthwynebiad nac wedi cyflwyno her ddifrifol i'r Datganiad Amgylcheddol na'r Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol ac mae'n cytuno â'r Arolygydd na fyddai effaith y cynllun yn anghymesur, ar yr amod bod y mesurau lliniarol a gynigir yn cael eu hymgorffori'n llwyddiannus. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod yr asesiad o effaith amgylcheddol a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Gweinidog hefyd yn fodlon bod yr Asesiad o'r Goblygiadau i Safleoedd Ewrop a nodwyd yn y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol a'r Atodiad i'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol yn nodi effeithiau posibl y cynllun ar Ardal Cadwraeth Arbennig yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 a gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC. Mae'n nodi bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn fodlon y gellir bwrw ymlaen â'r Cynllun yn unol â Rheoliadau 61, 62, 66 ac 84 y Rheoliadau Cynefinoedd yng ngoleuni'r casgliadau canlynol:
- Nad oes unrhyw atebion eraill a fyddai'n cyflawni amcanion y cynllun;
 - Na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau â blaenoriaeth;
 - Bod rhesymau hollbwysig o safbwynt budd cyhoeddus tra phwysig yn berthnasol, fel y nodwyd yn y SASICOM
 - Y bydd mesurau cydbwysu yn cynnal cydlyniant rhwydwaith Natura 2000.
84. Felly, mae'r Gweinidog yn fodlon bod y sylwadau a wnaed yn sgîl cyhoeddi'r Datganiad Amgylcheddol, a'r Atodiad iddo, y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol a'r Atodiad iddo, a'r SASICOM wedi cael eu hystyried yn ofalus ac yn briodol ac nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau eraill i gamau

lliniaru/cynigion y Cynllun na'r Datganiad Amgylcheddol ar sail unrhyw rai o'r materion a godwyd.

TIR COMIN A MANNAU AGORED

85. Noda'r Gweinidog fod yr Arolygydd yn fodlon nad yw'r ardaloedd sydd wedi cael eu clustnodi fel tir i'w roi yn lle tir a brynir, lle bo angen, ddim llai na'r tir a brynir, a'u bod yn addas o ran agosatrydd i'r ardaloedd y bwriedir eu prynu'n orfodol, ac yn debyg o ran ansawdd a natur. Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi casgliad yr Arolygydd y byddai'n briodol i gyflwyno'r tair Tystysgrif Adran 19 a'r Dystysgrif o dan baragraff 6 o Atodlen 3 mewn perthynas â'r Ddeddf Caffael Tir, yng nghyswllt y Tir Comin a Mannau Agored.

GWNEUD Y GORCHMYNION

86. Nid yw'r Gweinidog wedi canfod unrhyw beth i anghytuno ag ef yng nghasgliadau'r Arolygydd ac mae wedi derbyn argymhellion yr Arolygydd yn Adran 11 y dylid gwneud y Gorchmynion, gan ymgorffori'r addasiadau a nodwyd yn Atodiad C ac Atodiad D i'r Adroddiad ac a amlinellwyd yn Atodiad B i'r llythyr hwn.
87. Wrth dderbyn argymhellion yr Arolygydd, mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus a yw'r dibenion y paratowyd y Gorchmyn Prynu Gorfodol ar eu cyfer, gan gynnwys yr addasiadau a roddwyd gerbron yr Ymchwiliad a'r addasiadau a gyflwynwyd gan yr Arolygydd, yn ddigon i gyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rheini sydd â budd yn y tiroedd a gaiff eu heffeithio ac a gaiff eu heffeithio gan y cynllun mewn rhyw ffordd arall, ac mae'n fodlon y gellir cyfiawnhau ymyrraeth o'r fath gan ei bod yn fodlon bod achos cryf er budd y cyhoedd dros brynu'r tir yn orfodol yng nghyswllt y tir y mae'r Gorchmyn Prynu Gorfodol yn berthnasol iddo. Mae'n fodlon na ellid cyflawni dibenion y Gorchmynion mewn unrhyw ffordd arall. Yn benodol mae wedi ystyried darpariaethau Erthygl 8 ac Erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn y cyswllt hwn, wrth wneud y Gorchmyn Prynu Gorfodol mae'r Gweinidog yn fodlon y sicrhawyd cydbwysedd teg rhwng defnyddio pwerau prynu gorfodol, y gorchmynion perthnasol a hawliau'r rhai sy'n gwrthwynebu, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn rhan o'r Gorchmyn Prynu Gorfodol.
88. Mae'r Gweinidog o'r farn bod yr addasiad a gyhoeddwyd ers yr Ymchwiliad ac a nodwyd yn y llyfryn ymgynghori 'Modification – Lowered Eastbound Carriageway Between Brynmawr Junction Overbridge and the Water Works' yn ychwanegu gwerth at y cynllun ac y dylid ei fabwysiadu drwy gynnwys Addasiad AA y cyfeiriwyd ato ac sydd wedi'i nodi yn Atodiad B i'r llythyr hwn.
89. Felly, mae'r Gweinidog wedi penderfynu y dylid bwrw ymlaen â'r gwelliant hwn y mae gymaint ei angen ac â'r Gorchmynion drafft a wnaed sy'n ymgorffori'r addasiadau y cyfeiriwyd atynt yn Atodiad C ac Atodiad D i'r Adroddiad ac a nodwyd yn Atodiad B i'r llythyr hwn. Bydd y Gorchmynion yn dod yn weithredol

ar y dyddiad y cyhoeddir am y tro cyntaf yr hysbysiad yn datgan eu bod wedi cael eu gwneud.

CYFLEU'R PENDERFYNIAD

90. Mae'r llythyr hwn a'r Hysbysiad Cyhoeddus amgaeedig wedi cael eu hanfon at bawb sydd wedi mynegi barn ynghylch y cynllun a phob parti arall sydd â diddordeb ac maent i'w gweld yn <http://wales.gov.uk/topics/transport/roads/lettersreports/?lang=cy> Mae copïau o'r llythyr hwn, Adroddiad yr Arolygydd a'r Hysbysiad Cyhoeddus sy'n amgaeedig, ynghyd â'r Datganiad Amgylcheddol, yr Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol, y Datganiad Annhechnegol, y Datganiad i Hysbysu Aseiad Priodol a'r Atodiad iddo a'r SASICOM hefyd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau a nodwyd ym mharagraff 10 uchod tan 13 Tachwedd 2014.

HAWL I HERIO

91. Os bydd unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan y Gorchymyn Diwygio neu'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl am gwestiynu eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddynt ar y seiliau canlynol, sef:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu
- b. na chydymffurfiwyd â rhyw ofyniad yn y Ddeddf neu'r rheoliadau y gwnaethpwyd y gorchmynion hyn yn unol â hwynt,

gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r diben hwnnw i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos ar ôl iddynt ddod yn weithredol.

92. Os bydd unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y seiliau canlynol, sef:

- a. nad oes pŵer o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 nac unrhyw ddeddfiad o'r fath i awdurdodi'r pryniant gorfodol a ganiatawyd drwyddo fel y nodwyd yn adran 1(1) y Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfiwyd â rhyw ofyniad perthnasol,

gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos ar ôl iddo ddod yn weithredol.

Yr eiddoch yn gywir

SHEENA HAGUE

Dirprwy Gyfarwyddwr

Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith

Atodiad A

Mr. David Waggett
Chief Executive of Blaenau
Gwent County Borough Council
Municipal Offices
Civic Centre
Ebbw Vale
Gwent
NP23 6XB

Mr Paul Matthews
Chief Executive of
Monmouthshire County Council
County Hall
Rhadyr
Usk
NP15 1GA

Mr John Cook
Chief Executive of Brecon
Beacons National Park
Plas y Ffynnon
Cambrian Way
Brecon
Powys
LD3 7HP

Natural Resources Wales
FAO Kayna Tregay
Tŷ Cambria
29 Newport Road
Cardiff
CF24 0TP

Mr Richard Kevern
Protection & Policy
Cadw
Unit 5-7 Cefn Coed
Nantgarw
Cardiff
South Glamorgan
CF15 7QQ

Chief Constable
Gwent Constabulary HQ
Croesyceiliog
Torfaen

South Wales Fire & Rescue
Service HQ
Forest View Business Park
Llantrisant
Pontyclun
CF72 8LX

Mr. Dave Parry - Regional
Utilisation Manager
Welsh Ambulance Services
Trust
South East Region Headqu
Vantage Point House
Vantage Point Office Park
Ty-Coch Way
Cwmbran NP44 7HF

Openreach National Notice
Handling Centre
Post Point 3WW58
Telecom House
Trinity Street, Hanley
Stoke-on-Trent
Staffordshire
ST1 5ND

Cable & Wireless UK
C/o Atkins Telecoms
The Hub
500 Park Avenue
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4RZ

Western Power Distribution
NRSWA Section
Mapping Centre
Lamby Way
Cardiff
CF3 2EQ

Wales & West Utilities
Wales & West House
Spooer Close
Celtic Springs
Coedkernew
Newport
NP10 8FZ

National Grid Plant Protection
National Grid
Block 1
Brick Kiln Street
Hinckley
LE10 0NA

Virgin Media
National Plant Enquiries Te
Communications House
Scimitar Park
Courtauld Road
Basildon
Essex
SS13 1ND

Dwr Cymru
For the attention of Christine
Thorpe, Solicitor
Pentwyn Road
Nelson
Treharris
CF46 6LY

Mr C Murrin
(FOA Mr Andrew Flemming,
Rights of Way Officer)
Blaenau Gwent County Borough
Council
Enterprise House
Rassau Industrial Estate
Ebbw Vale
Blaenau Gwent

Mr J Martin
FAO Mr R Garner
Rights of Way Officer
Monmouthshire County Council
County Hall
Cwmbran NP44 2XH

Mr E Jones
Rights of Way Officer
Brecon Beacons National Park
Office
7 Glamorgan Street
Brecon
Powys
LD3 7DP

Llanelly Community Council
The Clerk of the Community
Council
FAO Adrian Edwards
Council Chamber
School Lane
Gilwern
Monmouthshire
NP7 0AT

Llangattock Community Council
The Clerk of the Community
Council
FAO Adrian Edwards
Ty Nant
Old Trap Road
Gilwern
NP7 OHW

Vale of Grwyney Community
Council
The Clerk of the Community
Council
FAO Maria James
Pleasant View
Forest Coal Pit
NP7 7LH

Crickhowell Town Council
The Clerk of the Town Council
Mrs Jill Pritchard
Wenllan Farm
Hillside
Llangattock
NP8 1LH

Llangynidr Community Council
The Clerk of the Community
Council
Mrs Williams
Willow Cottage
Forge Row
Llangynidr
Crickhowell
NP8 1LU

Cwm Du Community Council
The Clerk of the Community
Council
FAO Maj (Retd) R A B Doak
15 Danygrug
Crickhowell
NP8 1DD

Brynmawr Town Council
The Clerk of the Town Council
FAO Mrs. Angela Davies
Town Clerk
Town Council Office
Orchard Street
Brynmawr
NP23 4ET

Abergavenny Town Council
The Clerk of the Town Council
FAO Peter Johns
Town Clerk
Town Hall
Cross Street
Abergavenny
Monmouthshire
NP7 5HD

Mr G H Roberts
Assistant Director, Property
Management
Welsh Health Estates
PO Box 182, Bevan House
24-30 Lambourne Crescent
Llanishen, Cardiff
CF14 5GS

Mrs B Smith
NAVTEQ
Unit 7 Athena Court
Athena Drive
Tachbrook Park
Warwick
CV34 6RT

Mr Ian Gallagher
Freight Transport Association
Traffic Officer
Hermes House
St Johns Road
Tunbridge Wells
Kent
TN4 9UZ

Territory Outside Party Engineer
(Western)
Network Rail
6th Floor, Western House
1, Holbrook Way
Swindon
SN1 1BD

Mr Roland Seber
Right to Ride Network
Campaign Development
Officer Parklands
Railton Road
Guildford GU2 9JX

Welsh Cycling
Wales National Velodrome
Newport International Sport
Village
Newport
NP19 4PS

Sustrans Cymru
123 Bute Street
Cardiff
CF10 5AE

Mr Henry Whittaker
Senior Executive
Access & Rights of Way
The British Horse Society
Stoneleigh Deer Park
KENILWORTH
Warwickshire

Mrs Jeanne Hyett
Access & Bridleway Officer
Wales
British Horse Society
Woodlands Farm
Caerphilly Mountain
Caerphilly
CF83 1NF

The Coal Authority
200 Litchfield Lane
Mansfield
Nottinghamshire
NG18 4RG

Health and Safety Executive
Field Operations Division
Government Buildings
Ty Glas
Llanishen
CF14 5SH

Mr P N Scott
Hazardous Installations
Directorate
Health & Safety Executive
Government Buildings
Ty Glas
Llanishen
Cardiff CF14 5SH

Director for Wales
The National Trust
Trinity Square
Llandudno
Gwynedd
LL30 2DE

Mr Peter Ogden
Director
Campaign for Protection of Rural
Wales
Tŷ Gwyn
31 High Street
Welshpool
Powys SY21 7JP

NFU Cymru
Agriculture House
Royal Welsh Showground
Builth Wells
Powys
LD2 3TU

Ms Ruth Chambers
Council for National Parks
6-7 Barnard Mews
London
SW11 1QU

Inland Waterways Association
Mr Neil Edwards
Island House
Moor Road
Chesham
HP5 1WA

Liz Donnelly
Lovell Johns Limited
10 Hanborough Business Park
Long Hanborough
Witney
Oxfordshire OX29 8RU

Land Use Officer
Farmers' Union of Wales
Llys Amaeth
Plas Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BT

Welsh Officer
The Ramblers
3 Coopers Yard
Curran Road
Cardiff
CF10 5NB

General Secretary
Open Spaces Society
25A Bell Street
Henley on Thames
RG9 2BA

Mr Neil Crumpton
Friends of the Earth Cymru
33 Castle Arcade
Cardiff
CF1 2BX

Rebecca Mattingley
The Sports Council for Wales
Sophia Gardens
Cardiff
CF11 9SW

Civic Trust for Wales
Suite 1, West Wing
Windsor House
Windsor Lane
Cardiff
CF10 5DE

South Wales Trunk Roads
Agency
FAO A465 Route Manager
Unit 12, Llandarcy House
The Courtyard
Llandarcy
Neath
SA10 6EJ

The District Manager
Road Haulage Association
Roadway House
Cribbs Causeway
Bristol
BS10 7TU

Defence Land Agency
Blakemore Drive
Sutton Coldfield
West Midlands
B75 7RL

A D Pullen-Jones
Defence Land Agent
The Barracks
Brecon
Powys
LD3 7EA

Stuart Dodwell
Rights of Way Officer
WTRA Ltd
28 Porthkerry Road
Rhoose
Vale of Glamorgan
CF62 3HD

CBI Wales
2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff Bay
Cardiff
CF10 4DQ

Nigel Keane
Senior Policy Advisor
Wales Social Partners Unit
Limited
Room 208, Titan House
Titan Road
CARDIFF
CF24 5BS

Catriona Devon
Data Assistant
Premier Planning Consultancy
1st Floor
8 Elliott Place
Skypark SP1
Glasgow G3 8EP

Brynmawr Caving Club
FAO Malcolm Reid
39 Railway Terrace
Blaina
NP13 3BU

Michael Vaughan
Head of Franchise & Stakeholder
Management
Arriva Trains
St Mary House
47 Penarth Road
Cardiff
CF10 5DJ

British Caving Association
(Speleological Society)
The British Caving Association
The Old Methodist Chapel,
Great Hucklow,
Buxton,
Derbyshire.
SK17 8RG

Bat Conservation Trust
5th floor,
Quadrant House,
250 Kennington Lane,
London
SE11 5RD

Canal & Rivers Trust
First Floor North,
Station House,
500 Elder Gate,
Milton Keynes.
MK9 1BB.

Cambrian Caving Council
FAO Bernie Woodley
Neuadd Farm
Penderyn
Aberdare
CF44 9QA

Royal Society for the Protection
of Birds
Wales Headquarters
Sutherland House,
Castlebridge
Cowbridge Road East
Cardiff
CF11 9AB

Chris Green – Team Planner
(East)
Western Power Distribution
Scout Lane
Brecon
Powys
LD3 7DY

Paul Seargent – Team Planner
(West)
Western Power Distribution
Church Village Depot
Duffryn Bach Terrace
Church Village
CF38 1GY

Gareth Davies - Planner 13
overheads
Western Power Distribution
Church Village Depot
Duffryn Bach Terrace
Church Village
CF38 1GY

Martin Davies - Network Support
Manager
Wales & West Utilities
Wales & West House
Spooner Close
Celtic Springs
Coedkemew
Newport
NP10 8FZ

Gwyn Jones – Lead Engineer
Dwr Cymru Welsh Water
Eastern Business Park
St Mellons
Cardiff
CF3 5EA

Phil White - Waterway Engineer
Canal & River Trust
South Wales & Severn Water
The Dock Office
Commercial Road
Gloucester
GL1 2EB

Adrian Weston – Repayments
Project Engineer
BT Openreach
Stadium House
5 Park Street
Cardiff
CF10 1NT

Commons Registration – Powys
County Council
FAO Jenny Griffiths
The Gwalia
Ithon Road
Llandrindod Wells
Powys
LD1 6AA

Tudor Baldwin
Land Charges Officer
Monmouthshire County Council
PO Box 106
Caldicot
NP26 9AN

Atodiad B

Addasiad A - AO, SRO, CPO

Roedd nifer o fân gamgymeriadau teipio neu hepgoriadau yn y Gorchmynion drafft. Dylid addasu'r Gorchmynion wrth eu gwneud er mwyn cywiro'r rhain.

Addasiad B - CPO

Lleihau plot 5/18e o 54,755 metr sgwâr i 52,477 metr sgwâr.

Addasiad C - CPO

Tynnu plot 2/15 a rhoi plotiau 2/15n, 2/15o a 2/15p yn ei le. Byddai Plot 2/15o yn destun trwydded hanfodol.

Gwneud plot 2/15a 651 metr sgwâr yn fwy ar gais y perchennog, y bwriad yw negodi trwydded ar gyfer y plot hwn. Tynnu plot 1/12j a rhoi plot 1/12L a 1/12m yn ei le. I gyd gyda'i gilydd, byddai maint yr arwynebedd yr un fath.

Addasiad D - CPO

Lleihau plot 3/26 o 954 metr sgwâr i 108 metr sgwâr. Cyflwyno hawl hawddfrait dros 426 metr sgwâr o blot 3/26, y cyfeirir ato fel plot 3/26a.

Addasiad E – SRO a CPO

Newid maint y rhan o'r briffordd sydd wedi'i gwella yng nghyswllt y ffordd sydd wedi'i hadlinio o gyffordd newydd Brynmawr i Old Abergavenny Road fel y dangosir yng Nghynllun Safle 1A.

Tynnu plot 1/13.

Tynnu plotiau 1/11, 1/11a ac 1/11b a rhoi plotiau 1/11h, 1/11i, 1/11j, 1/11k yn eu lle ynghyd ag 1/19 gyda llai o dir wedi'i gymryd.

Tynnu plot 1/11d a rhoi plotiau 1/11g a 1/11k yn ei le gyda llai o dir. Byddai Plot 1/11k yn cynnwys 205 metr sgwâr sydd ym mherchnogaeth Mint Blue Properties Ltd, tir yr oedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu negodi trwydded ar ei gyfer ond y bwriad yn awr yw prynu'r teitl.

Addasiad F– SRO a CPO

Tynnu plotiau 1/2c, 1/2d, 1/2pp a rhoi plotiau 1/2tt, 1/2uu, 1/2vv a 1/2ww yn eu lle.

Mae Plotiau 1/2tt a 1/2uu yn rhan o dir comin BCL 018 ac maent wedi cael eu haildrefnu, ond nid ydynt wedi newid mewn maint.

Tynnu plot 1/4c a phlot 1/4d a rhoi 1/4f, 1/4g, 1/20 a 1/20a yn eu lle.

Byddai maint arwynebedd plot 1/2v yn lleihau o 49 metr sgwâr i 37 metr sgwâr.

Creu "pen-morthwyl" troi yn hytrach na'r gylchfan sydd wedi'i dangos ar Gynllun Safle 1/A yr SRO drwy addasu priffordd newydd 1/1B sydd wedi'i dangos yn Mewnosodyn A Cynllun Safle 1/A.

Addasiad G – SRO a CPO

Cywiro lleoliad cau PMA 5/6 sydd wedi'i ddangos yn Mewnosodyn C Cynllun Safle 5.

Creu mynedfa newydd sef PMA 5/6a, fel y gwelir yn Mewnosodyn D Cynllun Safle 5.

Tynnu plotiau 5/12a, 5/2b a 5/2d a rhoi plotiau 5/2k, 5/12b a 5/2L yn eu lle.

Byddai hyn yn golygu y byddai llai o dir yn cael ei gymryd.

Addasiad H – SRO a CPO

Lleihau'r ardal a effeithir gan gau PMA 4/3 sydd wedi'i dangos yn Mewnosodyn C Cynllun Safle 4 o 102 metr i 5 metr, creu mynedfa newydd sef PMA 4/3a i'w chynnwys yn Atodlen 4 ac sydd wedi'i nodi ar gynllun safle 4 yr SRO.

Cyflwyno plotiau newydd 4/9b a fydd yn mesur 9 metr sgwâr, a 4/1j a fydd yn mesur 7 metr sgwâr, er mwyn darparu ffordd fynediad newydd. (Gweler hefyd addasiad Y)

Addasiad I – SRO a CPO

Darparu mynedfa newydd, sef PMA 3/2b, i'w chynnwys yn Atodlen 3 ac sydd i'w gweld yng Nghynllun Safle 3 yr SRO.

Tynnu plot 3/17 a rhoi plotiau 3/17d, 3/17e a 3/17f yn ei le. Gyda'i gilydd, byddai'r plotiau hyn yn cwmpasu yr un faint o dir â phlot 3/17 ond byddai plot 3/17e yn darparu hawl mynediad.

Addasiad J – SRO a CPO

Creu llwybr ceffylau newydd a fyddai'n cysylltu pen gorllewinol Cilffordd Gyfyngedig 52/94 â Main Road, yn hytrach na chysylltu Cilffordd Gyfyngedig 52/94 â Llwybr Troed 52/64; cau Llwybr Troed 52/35, Llwybr Troed 52/64 a'r llwybr troed heb ei awdurdodi; gwella Llwybr Troed 52/63 a Chilffordd Gyfyngedig 52/94; y rhain i gyd i'w cynnwys yn Atodlen 3 a'u dangos ar gynllun safle 3 yr SRO.

Ail-rifo plot 3/7a yn blot 3/29c. Ail-rifo plot 3/7b yn blot 3/29d, a bydd hawliau yn berthnasol i'r plot hwn. Ychwanegu plotiau newydd, sef 3/29, 3/29a a 3/29b. Mae'r ychwanegiadau at y CPO yn cynnwys 1,460 metr sgwâr o dir.

Addasiad K - SRO

Dileu cau adran o Lwybr Troed 52/34 dros dro, a chau'r rhan honno o'r llwybr yn barhaol. Dileu'r gwelliant i Lwybr Troed 52/34 a chreu priffordd newydd (4/G), i'w dynodi'n llwybr ceffyl dros y man hwn fel y dangosir yn Mewnosodyn A yng Nghynllun Safle 4. Byddai priffordd newydd 4/C yn cael ei chreu fel llwybr ceffyl.

Addasiad L - CPO

Lleihau maint plot 5/7 o 886 metr sgwâr i 519 metr sgwâr.

Addasiad M - CPO

Rhannu plot 2/21 yn dri phlot, sef 2/21d, 2/21e a 2/21f. Mae arwynebedd y plotiau yr un faint â phlot 2/21, ond y bwriad fyddai negodi ar gyfer trwydded i wneud gwaith hanfodol yn unig ym mhlot 2/21f. (Byddai'r tir yn parhau i fod ym mherchnogaeth y tiffeddiannwr oni bai bod trafodaethau'n methu o ran sicrhau'r drwydded).

Addasiad N – SRO a CPO

Gwneud y fynedfa y cyfeirir ati fel 2/11a yn fwy fel y dangosir yn Mewnosodyn D yng Nghynllun Safle 2.

Gwneud plot 2/1r yn fwy a gwneud plot 2/1q yn llai. Mae'r arwynebedd yn aros yr un fath.

Addasiad 0 – heb ei ddefnyddio

Addasiad P – SRO a CPO

Cau PMA 3/3 fel y dangosir yn y mewnosodyn newydd yng Nghynllun Safle 3. Darparu PMA newydd o Dan-y-Coed y cyfeirir ati fel 3/3a yng Nghynllun Safle 3. Tynnu plot 3/11 a phlot hawddfrait 3/11a a rhoi plot 3/11b, plot 3/11c a phlot hawddfrait 3/11d yn eu lle. Byddai hyn yn golygu y byddai'r ardal sydd wedi'i chynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol yn llai.

Addasiad Q - SRO

Dangos aliniad gwahanol ar gyfer priffordd newydd 2/D, yn Mewnosodyn B yng Nghynllun Safle 2 a chynnwys cau PMA 2/10 yn Atodlen 2 ac yn y prif gynllun ar gyfer Cynllun Safle 2.

Addasiad R - SRO

Heb ei ddefnyddio

Addasiad S - CPO

Ychwanegu'r disgrifiad o hawliau mynediad yng nghyswllt plot 1/9e a phlot 1/9f.

Addasiad T - CPO

Tynnu plotiau 5/17c, 5/17e, 5/17f, 5/17g a 5/17h a rhoi plotiau 5/17k, 5/17L, 5/17m, 5/17p a 5/17q yn eu lle. Cynnwys plot newydd, sef 5/17n. Byddai hyn yn golygu bod arwynebedd y tir yn llai.

Addasiad U – SRO a CPO

Ychwanegu priffordd newydd, sef 4/F, a gwelliant i Brunant Road i'r gorllewin ac Old Trap Road i'r dwyrain i'w ychwanegu at Atodlen 4 a Chynllun Safle 4 fel mewnosodyn.

Tynnu plot 4/6i a rhoi plotiau 4/6L, 4/6m a 4/6n yn ei le. Tynnu plot 5/3 a rhoi plotiau 5/3a a 5/3b yn ei le.

Noder: O ganlyniad i addasiad U a gwella rhan o Old Trap Road a Brunant Road, rhaid ychwanegu 2 blot newydd i ffurfio hanner lled Old Trap Road a Brunant Road, sef 4/6o sy'n mesur 109 metr sgwâr a 5/3c sy'n mesur 70 metr sgwâr.

Addasiad V

Cynllun Safle 1/A a Thudalen 2 yr SRO

Ailsefydlu hawl marchogaeth ar draws yr A465 yn Intermediate Road, drwy gynnwys hawl o'r fath ar Priffordd Newydd 1/C, yn Atodlen 1 ac yng Nghynllun Safle 1A.

Dylai'r llwybr ceffylau gysylltu â Priffordd Newydd 1/B, yng Nghynllun Safle 1A, fel y'i haddaswyd o dan Addasiad F uchod.

Addasiad W

Tudalen 24 y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

O ganlyniad i gau'r llwybr troed a'r bont droed a ddisgrifir ar dudalen 24 y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl fel y bont droed heb gyfeirnod ar gefnffordd yr A465 i'r gogledd o Pentwyn Bungalow, creu Priffordd Newydd 5/E (llwybr troed) i groesi'r A465.

Ychwanegu Cyfeirnod Priffordd Newydd, sef 5/E, i Atodlen 5 y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl i ddangos Dewis 2a, a'i ddangos ar y prif gynllun ar gyfer Cynllun Safle 5.

Addasiad X – (Yn lle Addasiad R)

Cynllun Safle 3 a Thudalen 18 y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

Yn lle'r Addasiad R arfaethedig uchod, newid aliniad priffordd newydd 3/B ym Mewnosodyn C yng Nghynllun Safle 3 i ddangos bod rhan grom y ramp mynediad deheuol i Bont Droed Dan-y-Coed wedi cael ei dileu a'i disodli â mynediad i'r bont ffordd a fyddai'n rhedeg cyfochrog â'r lôn gerbydau i'r gorllewin o'r bont. Byddai'r llwybr troed mynediad hwn yn cysylltu â Llwybr Troed 52/50 ar Gynllun Safle 3.

Addasiad Y – SRO a CPO

Addasiadau a diweddariadau yn dilyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol. Ers cynnal yr ymchwiliad, mae nifer o ddiweddariadau i berchnogaeth a mân-gamgymeriadau teipio neu hepgoriadau wedi dod i'r amlwg. Dylid diwygio'r Gorchymynion er mwyn cywiro'r rhain.

Yn unol â'r argymhellion yn Addasiad H, dylid addasu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol i egluro'r gofynion o ran nifer o blotiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol. Rhannu plot 4/1g yn 4/1g a 4/1k, rhannu plot 4/1h yn 4/1h a 4/1L, rhannu plot 4/1 yn 4/1 a 4/1m, a rhannu plot 4/16 yn 4/16 a 4/16a; byddai'r arwynebedd yr un fath.

Mae angen plot newydd o dir, sef plot 3/1u sy'n mesur 6 metr sgwâr, a fydd ym mherchnogaeth Gweinidogion Cymru i ddarparu mynediad preifat newydd (Cyfeirnod 2/2a yn yr SRO) er budd Gweinidogion Cymru fel perchnogion Field House.

Addasiad Z

O ganlyniad i ddylunio manylach o ran adlinio Main Road (nesaf at Lamb House), lleihau faint o'r briffordd a fydd yn cael ei gwella a phlotiau Gorchymyn Prynu Gorfodol cysylltiedig sy'n ffurfio hanner lled Main Road er mwyn peidio â chynnwys y llain ymyl ffordd, fel a ganlyn: Lleihau Plot 4/11 o 54 metr sgwâr i 37 metr sgwâr, Plot 4/12 o 68 i 49 metr sgwâr, 4/12a o 45 i 31 metr sgwâr, 4/13 o 58 i 37 metr sgwâr.

Addasiad AA

Mae'r addasiad i'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft sy'n ymwneud â gostwng y lôn gerbyd tua'r dwyrain rhwng Trosbont Cyffordd Brynmawr a'r Gwaith Dŵr yn golygu bod angen gwneud mân-ddiwygiadau i aliniad priffyrdd newydd 2/A a 2/B a ffordd mynediad preifat 2/13a, yn ogystal â llwybr y gefnffordd newydd a ddangosir ym Mewnosodyn A Cynllun Safle 2.